DEDDF GAMBLO 2005:
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

DATGANIAD O EGWYDDORION

2022-2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
Mae fformatau eraill ar gael ar gais.

Fersiwn
Dyddiad dod i rym: 12/2/2022

RHAGYMADRODD

Caiff gamblo a betio'u rheoleiddio gan y Comisiwn Gamblo, y mae'i ddyletswyddau'n cynnwys trwyddedu gweithredwyr ac unigolion sy'n gysylltiedig â darparu cyfleusterau gamblo a betio. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn ei rôl fel awdurdod trwyddedu, ddyletswydd dan y Ddeddf, i drwyddedu safleoedd lle mae gamblo'n digwydd ac i drwyddedu rhai gweithgareddau eraill, gan gynnwys cofrestru loterïau cymdeithasau bychain.

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut y mae'r awdurdod trwyddedu'n bwriadu mynd ati i gyflawni'r dasg hon. Dylid nodi na fydd y datganiad polisi hwn yn gwrthwneud hawl unrhyw berson i wneud cais, i wneud sylwadau am gais, neu i wneud cais am adolygiad o drwydded. Bydd pob mater yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ac yn unol â gofynion statudol Deddf Gamblo 2005.

Mae Deddf Gamblo 2005 yn nodi sut mae gamblo ym Mhrydain Fawr yn cael ei reoleiddio. Daeth i rym yn llawn ym mis Medi 2007, ac mae'n cynnwys arcedau, betio, bingo, casinos, peiriannau hapchwarae, loterïau cymdeithas, a hapchwarae o bell (gan gynnwys hapchwarae ar-lein). Fodd bynnag, y Cyngor, fel yr awdurdod trwyddedu, sy'n gyfrifol am weinyddu a gorfodi safleoedd gamblo yn unig ac nid oes ganddo awdurdodaeth dros ffurfiau ar-lein o fingo, betio na gemau neu lwyfannau ar-lein eraill. Roedd Deddf 2005 hefyd yn creu ac yn pennu swyddogaethau ac amcanion y Comisiwn Gamblo fel y prif reoleiddiwr yn y Deyrnas Unedig.

Rhaid i'r Cyngor adolygu ei Ddatganiad o Egwyddorion mewn perthynas â gamblo o leiaf bob tair blynedd. Ers yr adolygiad diwethaf, y prif newid deddfwriaethol fu torri'r swm betio uchaf ar beiriannau hapchwarae B2 mewn siopau betio o £100 i £2.

Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd y Gweinidog Chwaraeon, Twristiaeth a Threftadaeth Adolygiad o Gylch Gorchwyl Deddf Gamblo 2005 a Galwad am Dystiolaeth sy'n gorgyffwrdd â'r broses adolygu tair blynedd bresennol.

Mae'r papurau cefndir yn dangos y bydd yr Adolygiad yn cael ei arwain gan Weinidogion yn yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gydag ymgysylltiad o bob rhan o'r llywodraeth, y Comisiwn Gamblo, y diwydiant, y sector iechyd ac elusennol, y rhai sydd â phrofiad o lygad y ffynnon o niwed gamblo, a rhanddeiliaid eraill.

Ar ôl yr alwad 16 wythnos gychwynnol am dystiolaeth, bydd y llywodraeth yn asesu'r dystiolaeth a gyflwynwyd, ochr yn ochr â data arall, gyda'r nod o nodi casgliadau ac unrhyw gynigion ar gyfer diwygio mewn papur gwyn yn 2022.

Mae'r cyfnod rhwng 2020 a 2021 hefyd wedi bod yn ddigynsail o ran pandemig y Coronafeirws, lle mae safleoedd gamblo wedi'u cau am gyfnodau o amser yn ystod y cyfnodau clo. Mae asesiad llywodraeth y DU fel rhan o'r adolygiad yn nodi bod y cynnyrch gamblo gros (GGY - swm a gafodd ei dalu allan) am gamblo ar-lein ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu gan 18% mewn termau real rhwng

2015/16 a 2018/19.

Roedd llawer o'r twf hwn o ganlyniad i newid sianel, o gamblo ar y tir (dim ond gan 4% dyfodd y farchnad yn gyffredinol yn y cyfnod hwnnw) ac ym mis Medi 2019 roedd y GGY a gynhyrchwyd gan gamblo o bell yn fwy na gamblo ar y tir am y tro cyntaf (ac eithrio loterïau).

Ers yr adolygiad lleol diwethaf, nid yw'r Cyngor wedi derbyn unrhyw dystiolaeth o dueddiadau na phryderon newydd yn y farchnad ar y tir y mae'n ei rheoleiddio. Mae adolygiad y Llywodraeth yn tynnu sylw at y ffaith nad yw twf cyson y diwydiant a'r newid i ddulliau ar-lein wedi gweld cynnydd amlwg mewn cyfranogiad cyffredinol mewn gamblo, na chynnydd yng nghyfraddau gamblo problematig y boblogaeth.

Felly, cynigir bod y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad statudol i adnewyddu ei Ddatganiad o Egwyddorion heb unrhyw newidiadau mewn polisi, ac i gynnal adolygiad pellach unwaith y bydd Papur Gwyn y Llywodraeth a'r amserlen ar gyfer unrhyw ddiwygiad ar gael.

MANYLION CYSWLLT

Trwyddedu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

licensing@bridgend.gov.uk

Ffôn: 01656 643643
Gwefan: www.bridgend.gov.uk

Mae'r awdurdod trwyddedu wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y ddogfen hon a dylid dwyn unrhyw wallau teipograffyddol i'n sylw. Nid yw unrhyw wybodaeth a geir oddi mewn i'r ddogfen wedi'i bwriadu i gael ei defnyddio yn lle cyngor cyfreithiol annibynnol. Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu adborth unwaith y caiff y Datganiad hwn ei gyhoeddi, anfonwch hwy i'r cyfeiriad uchod os gwelwch yn dda.

Gwefannau eraill a allai fod o ddiddordeb:

www.gamblingcommission.gov.uk
www.gamcare.org.uk

Mynegai

Pwnc	Tudalen
ADRAN RAGARWEINIOL	5
YSTYRIED CEISIADAU	18
EGWYDDORION SYDD O BWYS WRTH YSTYRIED SAFLEOEDD NEU HAWLENNI MEWN DOSBARTHIADAU PENODOL	24
HAWLENNI / HYSBYSIADAU DEFNYDD DROS DRO AC ACHLYSUROL	29
GWEUD PENDERFYNIADAU A DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU	36
HAWLIAU I APELIO AC I GAEL ADOLYGIAD BARNWROL	39

1.0 ADRAN RAGARWEINIOL

1.1 Yr Amcanion Trwyddedu

Un o egwyddorion sylfaenol y Datganiad hwn yw y bydd awdurdod trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("yr awdurdod trwyddedu"), wrth gyflawni'i swyddogaethau, yn hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu a nodir yn Neddf Gamblo 2005 ("y Ddeddf").

- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell troseddau neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throseddau neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gynnal troseddu.

- Sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn ffordd deg ac agored; ac

- Amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio o ganlyniad i gamblo.

Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn amcanu at ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gamblo cyn belled â'i fod wedi'i argyhoeddi bod y cais:

a. yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo dan Adran 24 y Ddeddf;

b. yn unol ag unrhyw Ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo dan Adran 25 y Ddeddf (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel "y Canllawiau");

c. yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu yn amodol ar a. a b. uchod ; ac

d. yn unol â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r awdurdod a gyhoeddwyd dan Adran 349 y Ddeddf yn amodol ar a. i c. uchod.

1.2 Ni fydd y Datganiad hwn yn gwrthwneud hawl unrhyw berson i wneud cais, i wneud sylwadau am gais, neu i wneud cais am adolygiad o drwydded, gan y bydd pob mater yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn unol â gofynion statudol Deddf Gamblo 2005.

Crynodeb o'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y Datganiad hwn

Mae'r swyddogaethau rheoleiddiol y mae'r awdurdod trwyddedu'n gyfrifol amdanynt fel a ganlyn:

- Trwyddedu safleoedd ar gyfer gweithgareddau gamblo
- Ystyried hysbysiadau a roddir mewn perthynas â defnydd dros dro o safleoedd ar gyfer gamblo
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae a pheiriannau hapchwarae mewn clybiau a sefydliadau lles glowyr
- Rhoi hawlenni i ganolfannau adloniant teuluol (CAT) ar gyfer defnyddio rhai peiriannau hapchwarae penodol lle mentrir llai o arian

- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae am wobrau
- Ystyried hysbysiadau defnydd achlysurol ar gyfer betio wrth draciau
- Cofrestru loterïau cymdeithasau bychain.
- Adolygiadau o Drwyddedau Safle
- Darparu gwybodaeth ar gyfer y Comisiwn Gamblo
- Cadw cofrestrau statudol

1.3 Mae'r Datganiad hwn yn berthnasol i'r holl safleoedd trwyddedadwy, hysbysiadau, hawlenni a chofrestriadau hynny y nodwyd eu bod yn dod dan ddarpariaethau'r Ddeddf, sy'n cynnwys:-

- Casinos;
- Safleoedd Bingo;
- Safleoedd Betio;
- Traciau;
- Canolfannau Hapchwarae i Oedolion;
- Canolfannau Adloniant Teuluol (CAT);
- Hawlenni peiriannau hapchwarae i CAT didrwydded
- Hawlenni ar gyfer Hapchwarae ac ar gyfer Peiriannau Hapchwarae mewn Clybiau;
- Hapchwarae am Wobrau a Hawlenni Hapchwarae am Wobrau;
- Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol;
- Cofrestru loterïau cymdeithasau bychain;
- Hysbysiadau gan safleoedd â thrwydded i werthu alcohol ar gyfer defnyddio dau beiriant hapchwarae neu lai;
- Datganiadau Dros Dro.

Dylid nodi nad yw awdurdodau trwyddedu lleol yn trwyddedu gamblo o bell, ac mai'r Comisiwn Gamblo sy'n rheoleiddio'r gweithgaredd hwn trwy Drwyddedau Gweithredwyr.

1.4 Yr ardal ddaearyddol y bydd awdurdod trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Gamblo 2005

Gyda'i harfodir Môr Hafren a chymysgedd o gymunedau trefol a gwledig, mae'r Fwrdeistref Sirol wrth galon ddaearyddol de Cymru ac mae ganddi boblogaeth o tua 147,539*. Mae ei harwynebedd tir 28,500 hectar yn ymestyn 20km o'r dwyrain i'r gorllewin ac mae'n meddiannu cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr. Y dref fwyaf yw Pen-y-bont ar Ogwr (poblogaeth: 58380****), ac wedyn Maesteg (poblogaeth: 20,612 **) a thref lan môr Porthcawl (poblogaeth: 15,813***).

*ffynhonnell

**http://www.maestegcouncil.org/about-maesteg/

*** ffynhonnell http://citypopulation.info/php/uk-wales.php?cityid=W37000295

****http://citypopulation.info/UK-WalesUA.html?cityid=10807

Bydd themâu corfforaethol a strategol y Cyngor yn amrywio yn ystod dilysrwydd y Datganiad hwn. Ceir manylion am y themâu a strategaethau corfforaethol presennol yma: https://www.bridgend.gov.uk/my-council/council-priorities-and-performance/

Yr ardal y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddi yw:

BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR
Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB.
FFÔN: 01656 643643 FFACS: 01656 668126
Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Rhif y Drwydded 100023405, 2006).

Mae'r awdurdod wedi cwblhau dadansoddiad lleol o broffil gamblo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Math o Safle/Hawlen	**2018**	**Nifer y safleoedd 2021**	**Sylwadau**
Betio	18	12	18+
Bingo	2	2	18+
Canolfan Hapchwarae i Oedolion	6	6	18+
Canolfan Adloniant Teuluol	4	3	Mynediad cymysg gydag ardal ar wahân i rai 18+
Clwb i Aelodau Cofrestredig	27	18	
Safle Trwyddedig	8	2	Safle trwyddedig gyda mwy na 2 beiriant
Safle Trwyddedig	82	66	Hawl awtomatig ar gyfer dau beiriant
Canolfan Adloniant Teuluol (hawlen)	10	5	Yn nodweddiadol, lleoliadau Glan Môr – mynediad i bobl o bob oed Mae Porthcawl yn lleoliad glan môr ac mae nifer o'r arcedau y cyfeirir atynt wedi'u lleoli yn yr ardal hon. Gall pob oedran gael mynediad i'r lleoliadau hyn

Cyfanswm y safleoedd lle mae gamblo ar gael	157	114	

Roedd 120 o grwpiau a chymdeithasau lleol wedi'u cofrestru i gynnal loteriau at ddibenion codi arian, sydd wedi gostwng i @68.

Nid yw'r awdurdod yn cadw ystadegau ar effaith gamblo ar yr ardal leol. Fodd bynnag, tynnir sylw at Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru sy'n amlygu'r alwad am ragor o ymchwil i effaith gamblo ar iechyd. Er nad oes unrhyw fanylion neu effaith polisi penodol ar ymgynghoriad 2021, dylai rhanddeiliaid fod yn ymwybodol o'r datblygiad lleol hwn yng Nghymru. Mae'r adroddiad ar gael yn:

http://llyw.cymru/docs/phhs/publications/cmo-report2017cy.pdf

Yn amodol ar yr ymgynghoriad statudol a fydd yn dilyn adolygiad 2021 o'r Polisi Gamblo Hwn nid oes tueddiadau sylweddol yn dod i'r amlwg i gyfiawnhau unrhyw newidiadau polisi sylweddol ar gyfer y cyfnod 2022-2025.

1.6 Dynodi'r corff cymwys i gynghori ynghylch amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio o ganlyniad i gamblo (Adran 157)

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddynodi'r corff cymwys i gynghori ynghylch amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio o ganlyniad i gamblo:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cynnwys holl ardal yr awdurdod trwyddedu,

- Yr angen i'r corff fod yn atebol i bobl a etholwyd yn ddemocrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp buddiant breintiedig arbennig.

Gan ystyried Canllawiau'r Comisiwn, mae'r awdurdod yn dynodi'r Gwasanaethau Diogelu a Chymorth i Deuluoedd yng Nghyfarwyddiaeth Plant Pen-y-bont ar Ogwr fel y corff mwyaf priodol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

1.7 Sut y bydd y Cyngor yn penderfynu pwy sy'n gymwys fel Parti Cyfrannog

Gall Partïon Cyfrannog gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu am geisiadau trwyddedu, neu wneud cais am adolygiad o drwydded bresennol. Parti cyfrannog yw rhywun:

- Sy'n byw'n ddigon agos at y safle ac y mae'n debygol yr effeithir arno gan y gweithgareddau awdurdodedig neu

- Sydd â buddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt neu

- Sy'n cynrychioli pobl yn y naill neu'r llall o'r categorïau uchod

Wrth arfer y pwerau dan adran 158 y Ddeddf i benderfynu a yw person yn barti cyfrannog mewn perthynas â thrwydded safle, neu gais am drwydded safle, bydd yr awdurdod trwyddedu'n dilyn y Canllawiau i Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn y ddogfen hon fel "y Canllawiau"). Bydd yn ystyried a yw person yn barti cyfrannog mewn perthynas â safle penodol fesul achos unigol, gan farnu pob un yn ôl ei rinweddau ac ni fydd unrhyw reol haearnaidd yn cael ei defnyddio yn y broses benderfynu.

Mae'r egwyddorion y gellir eu cymhwyso ym mhob achos fel a ganlyn:

- Maint a natur y safle
- Pellter y safle oddi wrth y sawl sy'n cyflwyno'r sylwadau
- Effaith bosib y safle (nifer y cwsmeriaid, y llwybrau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan y rheiny a fydd yn ymweld â'r sefydliad)
- Amgylchiadau'r person/bobl sy'n cyflwyno'r sylwadau. (Nid amgylchiadau personol yr achwynydd yw'r rhain ond buddiannau'r achwynydd a allai fod yn berthnasol i'r pellter oddi wrth y safle).

Wrth benderfynu a oes gan berson fuddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau effeithio arnynt, gall yr awdurdod trwyddedu ystyried, ymhlith pethau eraill,

- Maint y safle
- "Dalgylch" y safle (pa mor bell y mae pobl yn teithio i ymweld â'r safle)
- Pa un a oes gan y sawl sy'n cyflwyno'r sylwadau fuddiannau busnes yn y "dalgylch" hwn y gallai'r gweithgareddau effeithio arnynt

Mae'r awdurdod yn ystyried bod y grwpiau canlynol yn perthyn i gategori'r rheiny a allai gynrychioli pobl sy'n byw'n agos at y safle, neu sydd â buddiannau busnes y gallai'r safle effeithio arnynt:

- Cymdeithasau masnach
- Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid
- Elusennau
- Grwpiau Ffydd
- Practisiau Meddygol
- Pennaeth neu Lywodraethwr Ysgol
- Grŵp Cymunedol

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried pobl sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd fel partïon cyfrannog er enghraifft Cynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol neu Gynghorwyr Tref, Cymuned neu Blwyf.

Heblaw am y rhain, fodd bynnag, ar y cyfan bydd yr awdurdod hwn yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig bod person/corff (e.e. eiriolwr / perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sy'n byw'n ddigon agos at y safle fel ei bod yn debygol yr effeithir arno gan y gweithgareddau awdurdodedig ac/neu sydd â buddiannau busnes y gallai'r gweithgareddau awdurdodedig effeithio arnynt.

Os yw unigolion yn dymuno cysylltu â Chynghorwyr i ofyn iddynt gynrychioli'u safbwyntiau, dylid gofalu nad yw'r Cynghorwyr yn rhan o'r Pwyllgor Trwyddedu sy'n ymdrin â'r cais am drwydded. Os oes unrhyw amheuaeth, yna dylai'r parti gysylltu â'r Adain Trwyddedu a Chofrestru i gael gwybodaeth.

Dylai pob parti gofio bod yn rhaid i sylwadau ymwneud â'r amcanion trwyddedu. Os yw parti cyfrannog yn cael anhawster gwneud sylwadau, dylai gysylltu â'r Adain Drwyddedu i gael cyngor.

Rhoddir ystyriaeth ddyladwy i'r holl sylwadau perthnasol oni bai yr ystyrir eu bod yn wamal, yn flinderus neu'n ailadroddol. Mae'n debygol mai dyma'r egwyddorion a gaiff eu defnyddio yn y broses benderfynu:

- Pwy sy'n gwneud y sylwadau ac a oes hanes o wneud sylwadau nad ydynt yn berthnasol
- A yw'r sylwadau'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu
- A yw'r sylwadau'n ymwneud yn benodol â'r safle y gwneir y cais ar ei gyfer

Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud yn wrthrychol ac nid ar sail unrhyw farn wleidyddol. Pan fo sylwadau'n cael eu gwrthod, anfonir datganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r rhesymau.

Yn niffyg unrhyw reoliadau neu ddarpariaeth statudol, yn ddelfrydol dylai sylwadau wneud y canlynol:

- Nodi enw a chyfeiriad y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y sylwadau
- Nodi'r safle y mae a wnelo'r sylwadau ag ef
- Nodi pa mor agos yw'r safle at y person sy'n gwneud y sylwadau
- Nodi'r rhesymau dros wneud y sylwadau
- Hysbysu'r awdurdod trwyddedu os oes angen unrhyw gymorth arbennig i gyflwyno neu wneud y sylwadau'n ysgrifenedig neu ar lafar
- Ystyrir bod cyflwyno sylwadau'n electronig yn gyfartal â chyflwyno sylwadau ysgrifenedig

1.8 Sylwadau

Dylai pobl sy'n gwneud sylwadau fod yn ymwybodol y bydd y sylwadau'n cael eu datgelu'n llawn wrth yr ymgeiswyr ac y byddant yn cael eu cyhoeddi fel rhan o adroddiadau'r Cyngor er mwyn caniatáu tryloywder a chyd-drafod rhwng y partïon. Os bydd gwrandawiad yn cael ei gynnal, bydd yr holl sylwadau'n rhan o adroddiad cyhoeddus oni bai fod y person a wnaeth y sylwadau'n gallu argyhoeddi'r Cyngor bod rheswm diwrthdro dros beidio â gwneud hynny.

Dylai partïon cyfrannog ac awdurdodau cyfrifol gofio nad yw'r Ddeddf yn cynnwys atal niwsans cyhoeddus fel amcan trwyddedu. Ymdrinnir â hyn dan ddeddfwriaeth ar wahân. Yr unig sylwadau sy'n debygol o fod yn berthnasol yw'r rheiny sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu, neu sy'n codi materion a nodir yn y polisi hwn, y Canllawiau neu Godau Ymarfer y Comisiwn Gamblo.

1.9 Awdurdodau Cyfrifol

Mae'r awdurdodau cyfrifol ar gyfer yr awdurdod trwyddedu hwn fel a ganlyn:

Licensing Department Community Safety Partnership Bridgend Police Station Brackla Street Bridgend CF31 1BZ Phone: 01656 679507 Adran Twydded Partneriaeth Diogelwch yn y Gymuned Gorsdaf Heddlu Pen-y-bont Stryd Bracla Pen-y-bont CF31 1BZ Ffôn: 01656 679507	Shared Regulatory Services Bridgend County Borough Council Civic Offices Angel Street Bridgend CF31 4WB https://www.srs.wales/en/Contact-Us.aspx Phone: 0300 123 6696 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Y Swyddfeydd Dinesig Stryd yr Angel Pen-y-bont ar Ogwr. CF31 4WB https://www.srs.wales/cy/Contact-Us.aspx Ffôn: 0300 123 6696
Licensing Bridgend County Borough Council Civic Offices Angel Street	Development Group Communities Directorate

Bridgend CF31 4WB Phone: 01656 643643 Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Y Swyddfeydd Dinesig Stryd yr Angel Pen-y-bont ar Ogwr. CF31 4WB Ffôn: 01656 643643 licensing@bridgend.gov.uk	Bridgend County Borough Council Civic Offices, Angel Street Bridgend CF31 4WB Phone: 01656 643643 Y Grwp Datblygu Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB Ffôn: 01656 643643 planning@bridgend.gov.uk
Bridgend County Borough Council Children's Directorate Safeguarding and Family Support Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB	Health and Safety Executive Government Buildings Phase 1 Ty Glas Llanishen Cardiff, CF14 5SH Health and Safety Executive Government Buildings Rhan 1, Adeiladau'r Llywodraeth, Tŷ Glas, Llanishen, Caerdydd CF14 5SH
	The Gambling Commission Victoria Square House

South Wales Fire & Rescue Service Forest View Business Park Llantrisant CF72 8LX Phone:01443 232000 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Parc Busnes Fforest View Llantrisant CF72 8LX Ffôn: 01443 232000	Victoria Square BIRMINGHAM B2 4BP
H. M. Revenue & Customs Ty Nant 180 High Street SWANSEA SA1 5AP Her Majesty's Commissioners of Customs and Excise, Government Buildings Ty Glas Llanishen Cardiff. CF14 5FP 029 2032 5003	

Sylwer y gallai cyfeiriadau'r cyrff hyn newid o bryd i'w gilydd ac fe'ch cynghorir i gysylltu â'r Adain Drwyddedu cyn cyflwyno cais.

1.10 Cyfnewid Gwybodaeth ac Awdurdodau Cyfrifol

Wrth gyflawni'i swyddogaethau a'i rwymedigaethau dan y Ddeddf bydd y Cyngor yn cyfnewid gwybodaeth berthnasol â cyrff rheoleiddio eraill neu awdurdodau cyfrifol a bydd yn sefydlu protocolau ar wahân gyda'r cyrff hyn lle y bo'n berthnasol. Wrth gyfnewid gwybodaeth o'r fath, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion diogelu data, rhyddid gwybodaeth, polisïau presennol y Cyngor ac unrhyw Ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo. Mae Adran 29 y Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth ar yr awdurdod i gydymffurfio â

cheisiadau'r Comisiwn Gamblo am wybodaeth ac mae gwefan y Comisiwn Gamblo'n nodi'r protocolau cyfnewid gwybodaeth a fabwysiadwyd.

1.11 Rheoleiddio a Chychwyn Achosion Troseddol

Wrth gyflawni'r swyddogaethau dan Ran 15 o'r Ddeddf mewn perthynas ag archwilio safleoedd ac wrth arfer y pwerau dan adran 346 y Ddeddf i gychwyn achosion troseddol mewn perthynas â'r troseddau a nodir yn yr adran honno, bydd yr awdurdod trwyddedu'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â thelerau trwyddedau safle a chaniatadau eraill a awdurdodir ganddo

Bydd prif rôl yr awdurdod hwn o ran gorfodaeth a chydymffurfio'n ymwneud â chaniatadau i safleoedd a chaniatadau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Y Comisiwn Gamblo fydd y corff gorfodi ar gyfer trwyddedau gweithredu a phersonol a bydd pryderon ynghylch gweithgynhyrchu, cyflenwi neu atgyweirio peiriannau hapchwarae'n cael eu gwneud yn hysbys i'r Comisiwn Gamblo.

Bydd yr egwyddorion ar gyfer rheoleiddio'n seiliedig ar Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo a byddir yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn unol ag egwyddorion rheoleiddio gwell.

Yr egwyddorion i'w dilyn yw y dylai cyrff rheoleiddio a'r broses reoleiddio fod:

- Yn gymesur, yn briodol i'r risg a achosir, yn atebol, yn gyson ac yn dryloyw.

Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn mabwysiadu rhaglen archwilio safleoedd sy'n seiliedig ar risgiau; caiff y meini prawf canlynol eu defnyddio i benderfynu ar lefel y risg mewn perthynas â safleoedd.

Defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau a gwyngalchu elw a gafwyd o droseddau sy'n ymwneud â chyffuriau;

Defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau tân anghyfreithlon;

Defnyddio safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu i werthu pornograffi anghyfreithlon;

Defnyddio safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgarwch troseddol cyfundrefnol;

Defnyddio safle trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobaidd neu rywiol;

Defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau a gafodd eu smyglo;

Defnyddio safle trwyddedig i werthu nwyddau wedi'u dwyn.

Safle lle caiff plant ac/neu bobl agored i niwed eu rhoi mewn perygl.

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymchwilio i gwynion yn erbyn safleoedd trwyddedig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r amcanion trwyddedu y mae'n gyfrifol amdanynt. Yn y lle cyntaf, anogir achwynwyr i gyfleu'r gŵyn yn uniongyrchol i'r trwyddedai neu'r busnes dan sylw er mwyn ceisio datrysiad lleol.

Pan fo unrhyw barti wedi gwneud sylwadau dilys am safle trwyddedig, neu gais dilys am adolygiad o drwydded, mae'r awdurdod trwyddedu o blaid rhoi cymorth i gynnal cyfarfodydd cymodi er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n achos pryder a'u heglurhau. Ni fydd y broses hon yn gwrthwneud hawl unrhyw barti i ofyn i'r awdurdod trwyddedu ystyried eu gwrthwynebiadau dilys, na hawl unrhyw ddeiliad trwydded neu ymgeisydd i wrthod cyfranogi mewn cyfarfod cymodi.

Mae'r awdurdod yn cydnabod bod gan rai gweithredwyr penodol nifer o safleoedd o fewn ei ardal. Er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydymffurfio'n cael eu hadnabod a'u datrys ar y cyfle cyntaf, gofynna'r awdurdod i weithredwyr ddarparu enw un person a fydd yn gweithredu fel y pwynt cyswllt, a ddylai fod yn unigolyn mewn swydd uwch o fewn y sefydliad, ac y bydd yr awdurdod yn ceisio cysylltu ag ef neu â hi yn gyntaf os bydd unrhyw faterion yn codi mewn perthynas â chydymffurfio.

Bydd y Cyngor yn ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ac unrhyw ddiwygiadau dilynol, mewn perthynas â chynnal ymarferion prawf-brynu mewn safleoedd gamblo a bydd hefyd yn ystyried ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun mewn perthynas â defnyddio prawf-brynwyr dan oed.

1.12 <u>Integreiddio â deddfwriaeth bresennol a strategaethau lleol a chenedlaethol</u>

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dilyn y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo wrth benderfynu ynghylch ceisiadau ac ni fydd yn ystyried materion amherthnasol, h.y. y rheiny nad ydynt yn ymwneud ag amcanion trwyddedu. Os digwydd i'r awdurdod trwyddedu ganfod bod gwrthdaro rhwng darpariaeth yn un o godau ymarfer y Comisiwn Gamblo neu'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, a datganiad polisi'r awdurdod, rhywbeth sy'n annhebygol, yna codau a Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo fydd yn cael blaenoriaeth.

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y Canllawiau o safbwynt y berthynas rhwng caniatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu a rhoi trwyddedau i safleoedd

1.13 Bydd y Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu'n cael ei adolygu'n unol â darpariaethau'r Ddeddf a bydd yn sail i benderfynu ceisiadau am drwyddedau.

1.14 Yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r broses ymgynghori, cafodd y Datganiad ei gymeradwyo mewn cyfarfod gan y Cyngor a gynhaliwyd ar 15/12/2021 a daw i rym ar 12/2/2022. Mae copi ar gael yn <u>www.bridgend.gov.uk</u>.

Mae copi hefyd ar gael yn rhad ac am ddim gan yr Adain Drwyddedu ac mewn fformatau eraill ar gais.

1.15 Rhestr o'r bobl y mae'r awdurdod wedi ymgynghori â hwy wrth baratoi'r datganiad.

Fe ymgynghorodd y Cyngor â'r cyrff canlynol cyn mabwysiadu'r Datganiad:

Y Prif Gwnstabl: Heddlu De Cymru
Y Prif Swyddog Tân: Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Swyddogion arweiniol y Cyngor ar gyfer Diogelu a Phartneriaethau
Cynghorau Tref a Chymuned
Bwrdd Iechyd Lleol
Aelodau o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
Cyllid a Thollau E.M.
Cymdeithas Bwcïod Prydain (ABB)
BACTA
British Assoc. of Leisure Parks, Piers & Attractions Ltd.
GAMCARE
Y Comisiwn Gamblo
Enghraifft o safleoedd trwyddedig presennol.
Cynrychiolwyr safleoedd trwyddedig sydd wedi mynegi dymuniad yn flaenorol i gael gwybod am ymgynghoriadau.

Fe ymgynghorwyd â'r cyhoedd hefyd trwy wefan yr awdurdod rhwng 6/08/2021 a 10/09/2021.

1.16 <u>Casinos</u>

Nid yw'r awdurdod trwyddedu hwn wedi cymeradwyo penderfyniad 'dim casino' dan Adran 166 Deddf Gamblo 2005, ond mae'n ymwybodol bod ganddo'r grym i wneud hynny. Pe bai'r awdurdod trwyddedu hwn yn penderfynu cymeradwyo penderfyniad o'r fath yn y dyfodol, byddai'n diweddaru'r polisi hwn â chynnwys y penderfyniad hwnnw. Bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn. Pe bai'r Cyngor yn cymeradwyo penderfyniad o'r fath, byddai'r awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried ceisiadau'n unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo.

1.17 <u>Datganiad</u>

Wrth lunio'r Datganiad terfynol, mae'r awdurdod trwyddedu wedi ystyried amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005, y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, ac ymatebion gan y rheiny yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y Datganiad. Mae'r awdurdod hefyd wedi ystyried ei gyfrifoldebau dan Adran 17 Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998 (Erthyglau 1, 6, 8 a 10), a deddfwriaeth i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac anghydraddoldeb.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldebau amrywiol dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a bydd yn monitro effaith y dyletswyddau statudol hyn trwy ei amryw gynlluniau cydraddoldeb corfforaethol ac asesiadau o'r effeithiau. Nid yw'r

Datganiad o Egwyddorion Trwyddedu wedi'i fwriadu i ddyblygu deddfwriaeth a chyfundrefnau rheoleiddio presennol sydd eisoes yn gosod rhwymedigaethau ar gyflogeion a gweithredwyr sefydliadau gamblo.

Wrth gyflawni'i swyddogaethau, bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi sylw i'r gwahanol ystyriaethau rhwng yr amcanion a nodir yn Neddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Wrth benderfynu a ddylid rhoi trwydded ai peidio, ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y galw neu'r angen disgwyliedig am y safle gamblo y mae a wnelo'r cais ag ef.

Gall y bydd y Canllawiau i Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo'n cael eu diwygio o bryd i'w gilydd a dylid dehongli cyfeiriadau at feini prawf ac ati yn y datganiad hwn fel rhai sy'n cyfeirio at rifyn cyfredol y Canllawiau.

2.0 YSTYRIED CEISIADAU

2.1 Ni fydd unrhyw beth yn y Datganiad hwn:

Yn tanseilio hawliau unrhyw berson i wneud cais dan y Ddeddf am amrywiaeth o ganiatadau a chael ystyriaeth i'r cais yn ôl ei rinweddau unigol, nac

Yn gwrthwneud hawl unrhyw berson i wneud sylwadau ar unrhyw gais neu geisio adolygiad o drwydded neu hawlen pan fo hawl gan y person i wneud hynny dan y Ddeddf, nac

Yn rhagwahardd pob achos rhag cael ei benderfynu ar sail ei rinweddau gan ystyried y mesurau a gynigir gan yr ymgeisydd i fynd i'r afael â'r amcanion trwyddedu gamblo.

2.2 Prif rwymedigaeth yr awdurdod trwyddedu dan adran 153(1) y Ddeddf yw caniatáu'r defnydd o safleoedd i'r graddau y mae'n credu bod gwneud hynny:

a. yn unol â chodau ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn

b. yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn

c. yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu (yn amodol ar (a) a (b) uchod),

ac

d. yn unol â Datganiad o Bolisi'r Awdurdod Trwyddedu a gyhoeddwyd gan yr awdurdod (yn amodol ar (a) i (c) uchod).

2.3 Diffiniad o Safle

2.3.1 Wrth ystyried ceisiadau a chyflawni'i rôl reoleiddio bydd yr awdurdod trwyddedu'n cymhwyso'r egwyddorion a'r profion a nodir yn y Canllawiau mewn perthynas â'r materion canlynol:

- Y diffiniad o “safle”

- Safleoedd amlbwrpas a sawl trwydded ar gyfer adeilad

- Rhannu safleoedd a mynediad rhwng safleoedd

Ceir manylion llawn yn y Canllawiau cyfredol a bydd yr awdurdod trwyddedu’n ystyried unrhyw ddiwygiadau i’r diffiniadau hyn yn y dyfodol. Bydd yr awdurdod felly’n ystyried y rhain ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, gan ddibynnu ar holl amgylchiadau’r achos.

2.3.2 Bydd yr awdurdod hwn yn ystyried Canllawiau’r Comisiwn o safbwynt y berthynas rhwng caniatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu a rhoi trwydded safle.

2.3.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu’n ystyriol o’r ffaith y gall gweithredwyr wneud cais am drwydded safle mewn perthynas â safle nad yw wedi cael ei adeiladu neu’i addasu eto a bydd yn penderfynu unrhyw gais o’r fath yn ôl ei rinweddau. Bydd yr awdurdod yn mabwysiadu’r broses asesu a gefnogir gan y Comisiwn yn ei Ganllawiau. Bydd hefyd yn ystyried gorfodi dyddiad cychwyn effeithiol ar gyfer trwydded neu amod sy’n datgan pryd y daw trwydded i rym, yn ôl y digwydd, i sicrhau bod safleoedd yn cael eu hadeiladu’n unol â’r cynlluniau. Bydd yr awdurdod yn ystyried archwiliad corfforol fel dull priodol o sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw amod a orfodwyd.

2.4 <u>Lleoliad safleoedd</u>

2.4.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn dilyn canllawiau’r Comisiwn, sef na ellir rhoi sylw i faterion sy’n ymwneud â’r galw wrth ystyried lleoliad safleoedd ond y gellir rhoi sylw i ystyriaethau sy’n ymwneud â’r amcanion trwyddedu. Bydd yr awdurdod hwn yn rhoi sylw arbennig i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu’u hecsbloetio o ganlyniad i gamblo, yn ogystal â materion sy’n ymwneud â throseddau ac anhrefn.

2.4.2 Wrth benderfynu ceisiadau neu adolygiadau bydd yr awdurdod yn penderfynu pob cais yn ôl ei rinweddau ac os yw ymgeisydd yn gallu dangos sut y gellir lliniaru’r risgiau i’r amcanion trwyddedu, bydd yr awdurdod trwyddedu’n cymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud y penderfyniad.

2.4.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu’n rhoi ystyriaeth gyd-deimladwy i adleoli safle o fewn yr un ardal leol yn amodol ar unrhyw sylwadau sy’n amlygu effaith negyddol debygol ar yr amcanion trwyddedu.

2.4.4 Mae’r awdurdod trwyddedu’n argymell bod ymgeiswyr yn ystyried mabwysiadu codau ymarfer gwirfoddol Cymdeithas Masnach Darparu Adloniant Prydain (BACTA) mewn perthynas â chyfrifoldeb cymdeithasol, arfer da, mentrau hyfforddi a pholisïau rheoli oedran mynediad.

2.4.5 Mae’r awdurdod trwyddedu’n argymell bod ymgeiswyr yn ystyried codau polisi BACTA a GamCare mewn perthynas â hunan-wahardd i roi cymorth i’r bobl hynny sy’n cael anhawster rheoli’u harferion gamblo.

2.5 Llongau a cherbydau

2.5.1 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i drwyddedau safle gael eu rhoi ar gyfer llongau teithwyr. Rhagnodir ffurflenni cais ar wahân ar gyfer llongau dan y Rheoliadau Trwyddedau Safle a Datganiadau Dros Dro. Mae'r awdurdod hwn yn mabwysiadu'r diffiniad o longau a cherbydau a nodir yn y Ddeddf a'r meini prawf a nodir yn y Canllawiau wrth ystyried strwythurau sy'n estyniad ar y tir, gan gynnwys pier neu bont sydd i'w hystyried yn safleoedd dan y Ddeddf a phob mater arall sy'n ymwneud â llongau a'r dyfroedd y mae'n meddu ar awdurdodaeth i weithredu mewn perthynas â hwy.

2.5.2 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i longau pleser wneud cais am drwyddedau safle a'r Canllawiau a nodir gan y Comisiwn Gamblo yn y mater hwn ac ym mhob mater arall sy'n ymwneud â llongau.

2.6 Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell troseddau neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throseddau neu anhrefn, neu gael ei ddefnyddio i gynnal troseddau

2.6.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi ystyriaeth ddyladwy i leoliad arfaethedig safleoedd gamblo o safbwynt yr amcan trwyddedu hwn ac i'r gwahaniaethau rhwng troseddau difrifol, anhrefn a niwsans. Ni fydd yr awdurdod trwyddedu ond yn cymeradwyo cais am drwydded os yw wedi'i argyhoeddi bod sylw digonol wedi cael ei roi i atal troseddau.

2.6.2 Felly os gwyddys fod lefelau uchel o droseddu cyfundrefnol mewn ardal, bydd yr awdurdod hwn yn ystyried yn ofalus a yw'n addas lleoli safle gamblo yno ac a fyddai'n briodol gosod amodau megis darparu goruchwylwyr drysau. Ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â niwsans, y gellir mynd i'r afael â hwy trwy ddeddfwriaeth briodol arall, nac i faterion sy'n ymwneud â niwsans cyffredinol e.e. parcio neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.6.3 Anogir ymgeiswyr i drafod y gweithdrefnau atal troseddau yn eu safleoedd gyda Heddlu De Cymru cyn gwneud cais ffurfiol.

2.6.4 Wrth ystyried ceisiadau am drwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi ystyriaeth arbennig i'r canlynol:

- Dyluniad a chynllun y safle;
- Yr hyfforddiant a roddir i staff mewn mesurau atal troseddau sy'n briodol i'r safle hwnnw;
- Nodweddion diogelwch ffisegol sydd wedi'u gosod yn y safle. Gallai hyn gynnwys materion megis safle cofrestrau arian neu safon y system teledu cylch cyfyng sydd wedi'i gosod;
- Lle ceir cyfyngiadau oedran ar safle, y gweithdrefnau sy'n bodoli er mwyn cynnal gwiriadau profi oedran;

- Y tebygolrwydd y ceir unrhyw drais, problem gyda'r drefn gyhoeddus neu broblem blismona os rhoddir y drwydded.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gall ymgeiswyr gynnig mesurau eraill a fydd yn mynd i'r afael â'r amcan trwyddedu hwn. Bydd angen i ymgeiswyr am drwydded safle fynd ati'n gyntaf i gael trwydded gweithredu a roddir gan y Comisiwn Gamblo. O ganlyniad, nid ar addasrwydd ymgeisydd y bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi'r pwys mwyaf, ond pan gyfyd pryderon ynghylch hynny, bydd yr awdurdod trwyddedu'n dwyn y rhain i sylw'r Comisiwn Gamblo.

2.7 <u>Sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn ffordd deg ac agored</u>

2.7.1 Ar y cyfan nid yw'r Comisiwn Gamblo'n disgwyl i awdurdodau trwyddedu ymboeni ynghylch sicrhau bod gamblo'n digwydd mewn ffordd deg ac agored; bydd hyn yn cael sylw trwy drwyddedau gweithredu a phersonol heblaw mewn perthynas â thraciau, a eglurir mewn mwy o fanylder isod. Bydd yr awdurdod yn hysbysu'r Comisiwn, fel sy'n ofynnol, os oes tystiolaeth nad yw'r amcan hwn yn cael ei gyflawni.

2.8 <u>Amddiffyn plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio o ganlyniad i gamblo</u>

2.8.1 Bydd yr awdurdod hwn yn ystyried bwriad y Ddeddf Gamblo, sef, gydag eithriadau cyfyngedig, na ddylid caniatáu i blant a phobl ifanc gamblo ac y dylid eu hatal rhag mynd i mewn i'r safleoedd gamblo hynny sy'n amgylcheddau ar gyfer oedolion yn unig. Mae'r amcan yn cyfeirio at amddiffyn plant rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio o ganlyniad i gamblo. Mae hyn yn golygu eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo a bod â chyfyngiadau ar hysbysebu fel nad yw cynhyrchion gamblo wedi'u hanelu at blant nac yn cael eu hysbysebu mewn ffordd sy'n eu gwneud yn arbennig o ddeniadol i blant, (heblaw am beiriannau hapchwarae yng Nghategori D).

Mae'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP) yn nodi sut y mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag defnyddio gweithgareddau hapchwarae neu gamblo â chyfyngiad oedran yn enwedig lle mae peiriannau hapchwarae wedi'u trwyddedu. Bydd yr awdurdod yn cymryd yr holl amodau a chodau i ystyriaeth wrth ystyried ceisiadau neu gyflawni gweithgareddau cydymffurfio a gorfodi.

2.8.2 Gan roi ystyriaeth ddyladwy i'r mesurau a nodir yn y cais, ac i unrhyw sylwadau perthnasol, gall yr awdurdod trwyddedu felly ystyried a oes mesurau penodol yn ofynnol mewn safleoedd penodol, mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn. Gallai mesurau priodol gynnwys goruchwylio mynedfeydd/peiriannau, gwahanu ardaloedd, hyfforddiant, a lleoliad peiriannau codi arian (ATM).

2.8.3 O ran y term "pobl agored i niwed" nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo'n ceisio cynnig diffiniad ond ei fod yn nodi, at ddibenion rheoleiddio, nifer o grwpiau agored i niwed nad ydynt o bosib yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys ynghylch gamblo. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried a oes unrhyw ystyriaethau arbennig yn berthnasol i'r amcan trwyddedu

hwn fesul achos unigol, gan daro cydbwysedd â'r amcan i anelu at ganiatáu'r defnydd o safleoedd ar gyfer gamblo.

2.9 Ystyriaethau sy'n ymwneud ag amodau i'w hychwanegu at Drwyddedau Safle

2.9.1 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cydnabod bod amodau gorfodol yn cael eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda'r bwriad nad oes angen rheoleiddio pellach mewn perthynas â'r mater hwnnw. Felly ystyrir ei bod yn eithriadol o annhebygol y bydd angen i'r awdurdod osod amodau unigol sy'n gorfodi cyfundrefn fwy cyfyngol mewn perthynas â materion yr ymdriniwyd â hwy eisoes trwy amodau gorfodol. Ni fydd yr awdurdod trwyddedu ond yn ystyried gosod amodau pan fo tystiolaeth o bryderon rheoliadol o natur eithriadol a bydd unrhyw amodau ychwanegol mewn trwyddedau'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

2.9.2 Yn ychwanegol at unrhyw amodau diofyn a all gael eu rhagnodi gan y drefn reoleiddio, bydd unrhyw amodau a gaiff eu hychwanegu at drwyddedau gan yr awdurdod trwyddedu'n gymesur ac:

- yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster gamblo;
- yn ymwneud yn uniongyrchol â'r safle a'r math o drwydded yr ymgeisir amdani;
- yn ymwneud yn deg ac yn rhesymol â maint y safle a'r math o safle; ac,
- yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

2.9.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded gynnig ei (h)awgrymiadau ei hun o ran sut y gellir mynd ati'n effeithiol i gyflawni'r amcanion trwyddedu.

2.9.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn cymryd gofal arbennig wrth asesu ceisiadau am sawl trwydded safle ar gyfer adeilad yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo.

2.10 Goruchwylwyr Drysau

2.10.1 Pan fo'r awdurdod yn arfer ei ddisgresiwn i osod amod mewn trwydded safle sy'n ei gwneud yn ofynnol i fynedfeydd y safle gael eu rheoli gan oruchwyliwr drysau, mae'n ofynnol bod y person hwnnw wedi'i drwyddedu dan Ddeddf Diwydiannau Diogelwch Preifat (DDDP) 2001. Bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei rinweddau yn unol â'r Canllawiau trosfwaol ar gyfer gosod amodau y tu hwnt i unrhyw Amodau Gorfodol.

3.0 EGWYDDORION SYDD O BWYS WRTH YSTYRIED SAFLEOEDD NEU HAWLENNI MEWN DOSBARTHIADAU PENODOL

3.1 Yn ychwanegol at yr egwyddorion cyffredinol a gaiff eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau, gall y materion canlynol gael eu hystyried dan amgylchiadau priodol mewn perthynas â hawlenni neu safleoedd yn y dosbarthiadau penodol canlynol.

Mae'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo ac a gychwynnodd ym mis Mai 2015 yn gosod cyfrifoldeb pellach ar safleoedd i gwblhau asesiad risg yn seiliedig ar y cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol. Bydd yr awdurdod yn rhoi ystyriaeth i'r cod hwn wrth ystyried ceisiadau. Gall gweithredwyr gael mynediad at yr wybodaeth hon trwy wefan y Comisiwn Gamblo yn www.gamblingcommission.gov.uk

Asesiadau Risg (o 6 Ebrill 2016 ymlaen)

Mae'r Comisiwn Gamblo a'r cod cyfrifoldeb cymdeithasol o fewn yr Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gamblo asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu sy'n deillio o ddarparu cyfleusterau gamblo ym mhob un o'u safleoedd, ac iddynt fod â pholisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli i liniaru'r risgiau hynny. Mae'r asesiadau risg lleol hyn yn benodol i'r niwed posibl y gallai gamblo'i gael ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu. Dylent fod yn benodol i'r safle, yr ardal leol a'r gymuned ac felly mae'r awdurdod trwyddedu'n disgwyl i'r ymgeisydd fod â dealltwriaeth dda am yr ardal y mae'n gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, ynddi.

Mae'n ofyniad gorfodol bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau:

- Pan geir newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau lleol
- Pan geir newidiadau sylweddol ar safle trwyddedai a allai effeithio ar ei ymdrechion i liniaru risgiau lleol
- Wrth ymgeisio am drwydded safle newydd neu amrywiad i drwydded safle

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr na chyfarwyddol, ond dyma rai materion y gall asesiad risg eu cynnwys:

- Yr ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi/y bwriedir iddo gael ei leoli ynddi
- Hyfforddiant i staff mewn ymyrryd pan fo cwsmer yn dangos arwyddion o gamblo gormodol

- Lleoliad a chwmpas camerâu teledu cylch cyfyng a sut y caiff y system ei gweithredu a'i monitro
- Cynllun y safle i alluogi staff i fod â golwg ddirwystr ar bobl sy'n defnyddio'r safle
- Niferoedd staff gan gynnwys y trefniadau goruchwylio a monitro pan fo staff yn absennol o'r ardal drwyddedig am eu bod yn ymdrin â chwsmeriaid
- Trefniadau ar gyfer monitro ac ymdrin â phobl dan oed a phobl agored i niwed, a all gynnwys personél hyfforddedig pwrpasol, taflenni, posteri a.y.b.
- Gwybodaeth y mae'r trwyddedai'n ei dal am hunan-waharddiadau ac achosion o gamblo dan oed
- Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-waharddiadau a thueddiadau hapchwarae
- Y lleoliad, gan gynnwys agosrwydd at ysgolion, canolfannau ieuenctid, canolfannau hamdden, safleoedd gamblo eraill, cyfleusterau lluniaeth ac adloniant, parciau a meysydd chwarae
- Problemau y gwyddys amdanynt yn yr ardal sy'n ymwneud â phobl ifanc megis problemau sy'n deillio o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Dylai'r asesiad o risg gynnwys asesiad o effaith unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo sy'n debygol o annog plant na chânt fynd ar y safle i'w ddefnyddio.
- Mae'r awdurdod trwyddedu yn credu mai'r arfer gorau yw cadw copi o'r asesiad o risg lleol ar y safle.

Amgylchedd Priodol ar gyfer Trwydded

Lle darperir cyfleusterau gamblo ar safleoedd fel gweithgaredd sy'n ychwanegol at brif bwrpas y safle e.e. mewn gwasanaethau ar draffordd a chanolfannau siopa, bydd yr awdurdod yn disgwyl i'r ardal gamblo fod wedi'i diffinio'n eglur i sicrhau bod cwsmeriaid yn llwyr ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i mewn i'r safle gamblo, a bod y safle'n cael ei oruchwylio'n ddigonol drwy'r amser.

3.2 Canolfannau Hapchwarae i Oedolion

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio gan gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd argyhoeddi'r awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau nad yw rhai dan 18 oed yn cael mynediad i'r safle. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i gyflawni'r amcanion trwyddedu; fodd bynnag gallai mesurau priodol ymdrin â materion megis:

- Cynlluniau profi oedran
- Teledu Cylch Cyfyng
- Goruchwylio mynedfeydd / yr ardaloedd lle darperir peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- Arddangos ffynonellau cymorth ar gyfer pobl â phroblem gamblo mewn ardaloedd amlwg, ac mewn ardaloedd mwy anamlwg i alluogi pobl i barhau'n ddienw.

- Cynlluniau hunan-atal a hunan-wahardd
- Ods hapchwarae i gael eu harddangos yn glir ar beiriannau
- Peiriannau codi arian neu beiriannau arian parod eraill i fod ar wahân i beiriannau hapchwarae

Nid yw'r rhestr yn un orfodol, nac yn gynhwysfawr, ac mae'n syml yn dynodi mesurau enghreifftiol.

3.3 Canolfannau Adloniant Teuluol (Trwyddedig)

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio gan gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd argyhoeddi'r awdurdod, er enghraifft, y bydd mesurau digonol i sicrhau nad yw rhai dan 18 oed yn cael mynediad i'r ardaloedd ar gyfer oedolion yn unig lle darperir peiriannau hapchwarae.

Bydd yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau'u hunain i gydymffurfio â'r amcanion trwyddedu a'r amodau gorfodol; fodd bynnag, gallai mesurau priodol ymdrin â materion megis:

- Teledu Cylch Cyfyng
- Goruchwylio mynedfeydd / yr ardaloedd lle darperir peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- Lleoliad y fynedfa
- Hysbysiadau / arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-atal a hunan-wahardd
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau megis GamCare
- Mesurau / hyfforddiant ar gyfer staff ar sut i ymdrin â phlant ysgol sydd dan amheuaeth o fod yn chwarae triwant ar y safle.
- Ods hapchwarae i gael eu harddangos yn glir ar beiriannau
- Peiriannau codi arian neu beiriannau arian parod eraill i fod ar wahân i beiriannau hapchwarae

Nid yw'r rhestr yn un orfodol, nac yn gynhwysfawr, ac mae'n syml yn dynodi mesurau enghreifftiol.

3.4 Safleoedd bingo

Nid oes diffiniad statudol o fingo yn y Ddeddf a bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y termau sy'n ddealladwy gan bawb, sef bingo arian parod a bingo gwobrau, a nodir yn y Canllawiau.

Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried Canllawiau ac Amodau Gorfodol y Comisiwn Gamblo mewn perthynas â derbyn plant i safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer bingo.

3.5 Safleoedd betio

Ni fydd plant a phobl ifanc yn gallu mynd i mewn i safleoedd â thrwydded safle betio er y bydd rheolau arbennig yn berthnasol i draciau. Mae'r awdurdod trwyddedu'n bwriadu dilyn Canllawiau'r Comisiwn mewn perthynas â trwyddedau betio wrth drac a thrwyddedau safle betio.

3.6 Traciau

3.6.1 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn mabwysiadu'r Canllawiau a nodir gan y Comisiwn Gamblo o ran diffiniadau o draciau a chaniatáu trwyddedau safleoedd. Bydd yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio o ganlyniad i gamblo).

3.6.2 Bydd yr awdurdod hwn felly'n disgwyl i'r ymgeisydd am drwydded safle ddangos mesurau addas i sicrhau nad yw plant yn cael mynediad at gyfleusterau hapchwarae sydd ar gyfer oedolion yn unig.

3.6.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i gyflawni'r amcanion trwyddedu; fodd bynnag gallai mesurau priodol ymdrin â materion megis:

- Cynlluniau profi oedran
- Teledu Cylch Cyfyng
- Goruchwylio mynedfeydd / ardaloedd lle darperir peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- Lleoliad y mynediad
- Hysbysiadau / arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-atal a hunan-wahardd
- Darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth gan sefydliadau megis GamCare
- Ods hapchwarae i gael eu harddangos yn glir ar beiriannau
- Peiriannau codi arian neu beiriannau arian parod eraill i fod ar wahân oddi wrth beiriannau hapchwarae

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, ac mae'n syml yn dynodi mesurau enghreifftiol.

3.6.4 Dylai cynlluniau ei gwneud yn glir ar gyfer beth y ceisir awdurdodiad dan y drwydded safle betio ar gyfer y trac a pha ardaloedd eraill, os o gwbl, fydd yn cael eu cynnwys mewn cais ar wahân am fath gwahanol o drwydded safle. Nid oes angen i gynlluniau fod wrth raddfa arbennig ond dylent fod yn ddigon manwl i gydymffurfio â'r rheoliadau a galluogi'r awdurdod trwyddedu i ffurfio barn ddeallus am addasrwydd y safle ar gyfer gamblo. Bydd yr awdurdod yn ystyried y Canllawiau penodol a gyhoeddwyd mewn perthynas â diffinio perimedr allanol trac a lleoliad ardaloedd betio.

3.7 Ffeiriau Teithiol

3.7.1 Mae'r awdurdod trwyddedu'n mabwysiadu Canllawiau'r Comisiwn ar y mater hwn.

3.8 Amodau ac osgoi dyblygu deddfwriaeth arall

3.8.1 Mae ystod o ddeddfau cyffredinol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, gwahaniaethu ar sail anabledd ac ar sail hil, cyfraith cyflogaeth a diogelwch tân eisoes yn cael ei gorfodi ar berchenogion safleoedd gamblo. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ymdrechu i beidio â dyblygu cyfundrefnau rheoliadol presennol.

3.9 Ystyried Datganiadau Dros Dro

3.9.1 Mae Adran 204 y Ddeddf yn caniatáu i berson wneud cais i'r awdurdod trwyddedu am ddatganiad dros dro mewn perthynas â safle y mae ef neu hi:

- yn disgwyl iddo gael ei adeiladu
- yn disgwyl iddo gael ei addasu
- yn disgwyl ennill yr hawl i'w feddiannu.

Mae'r Canllawiau'n datgan na ddylid ond rhoi trwydded i ddefnyddio safle ar gyfer gamblo mewn perthynas â safle y gall yr awdurdod trwyddedu fod wedi'i argyhoeddi ei fod yn mynd i fod yn barod i gael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol gweddol agos. Os nad yw'r gwaith o adeiladu'r safle wedi cael ei gwblhau eto neu os oes angen ei addasu, neu os nad oes hawl gan yr ymgeisydd i'w feddiannu, yna dylid cyflwyno cais am ddatganiad dros dro.

Bydd yr awdurdod yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Gamblo mewn perthynas â'r broses ddau gam ar gyfer penderfynu cais.

3.9.2 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am drwyddedau safle gwrdd â meini prawf penodol. Mae'n rhaid eu bod yn dal neu wedi ymgeisio am drwydded gweithredu gan y Comisiwn (ac eithrio yn achos trac), ac mae'n rhaid bod ganddynt yr hawl i feddiannu'r safle y mae a wnelo'u cais am drwydded safle ag ef. Fodd bynnag, nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i gais am ddatganiad dros dro. Ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n bwrw amcan ynghylch, nac yn rhoi ystyriaeth fel arall i'r tebygolrwydd o roi trwydded gweithredu wrth ystyried y cais am ddatganiad dros dro.

3.9.3 Ni all yr awdurdod ond gwrthod rhoi'r drwydded safle (neu ei rhoi ynghyd ag amodau sy'n wahanol i'r rheiny a nodwyd yn y datganiad dros dro) gyda golwg ar y materion canlynol:

- materion na ellid bod wedi'u codi trwy sylwadau yn ystod y cam pan roddwyd y drwydded dros dro,
- materion sydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr,
- materion lle nad yw'r safle wedi cael ei adeiladu'n unol â'r cynllun a'r wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais am ddatganiad dros dro.

3.9.4 Mae'n rhaid i hwn fod yn newid sylweddol i'r cynllun a bydd awdurdodau trwyddedu'n trafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r ymgeisydd cyn gwneud penderfyniad.

3.9.5 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried a yw cais cynllunio gan yr ymgeisydd yn debygol o gael ei ganiatáu yn unol â chyfraith cynllunio neu adeiladu.

3.9.6 O ran sylwadau ar geisiadau am drwyddedau safle, yn dilyn rhoi datganiad dros dro, ni fydd unrhyw sylwadau pellach gan awdurdodau perthnasol neu bartïon cyfrannog yn cael eu hystyried oni bai fod a wnelont â materion na ellid bod wedi rhoi sylw iddynt yn ystod y cam pan roddwyd y datganiad dros dro, neu eu bod yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ymgeisydd.

4.0 ADOLYGIADAU

4.1 Gall trwydded safle gael ei hadolygu gan yr awdurdod trwyddedu o'i ddewis ei hun neu'n dilyn derbyn cais am adolygiad. Bydd adolygiadau fel arfer yn cael eu dirprwyo i Is-bwyllgor Trwyddedu er mwyn iddo benderfynu yn eu cylch.

4.2 Bydd ceisiadau am adolygiadau'n cael eu hystyried gan feddwl a yw'r cais am yr adolygiad yn berthnasol i'r materion a restrir isod (yn amodol ar y profiso yr ymdrinnir â phob cais yn ôl ei rinweddau). Rhoddir ystyriaeth ddyladwy i natur y cais o ran bod yn wamal, yn flinderus neu'n ailadroddol. Bydd sylwadau a allai ysgogi'r broses adolygu felly o bosib yn cynnwys:

- Defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu cyffuriau a gwyngalchu elw o droseddau sy'n ymwneud â chyffuriau;
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau tân anghyfreithlon;
- Defnyddio safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu i werthu pornograffi anghyfreithlon;
- Defnyddio safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgarwch troseddol cyfundrefnol;
- Defnyddio safle trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobaidd neu rywiol;
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau wedi'u smyglo;
- Defnyddio safle trwyddedig i werthu nwyddau wedi'u dwyn;
- Safle lle caiff plant ac/neu bobl agored i niwed eu rhoi mewn perygl.

4.3 Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth ddyladwy i'r canlynol;

- mae'r rhesymau'n amherthnasol;

- ni fydd y rhesymau'n peri i'r Awdurdod Trwyddedu ddirymu neu atal trwydded neu ddiddymu, diwygio neu atodi amodau yn y Drwydded Safle;
- mae'r rhesymau'r un fath o ran sylwedd â'r rhesymau a nodwyd mewn cais blaenorol mewn perthynas â'r un safle; neu
- mae'r rhesymau'r un fath o ran sylwedd â sylwadau a wnaed ar yr adeg y cafodd y cais am Drwydded Safle ei ystyried.

5.0 HAWLENNI / HYSBYSIADAU DEFNYDD DROS DRO AC ACHLYSUROL

5.1 Hawlenni peiriannau hapchwarae ar gyfer Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

5.1.1 Nid yw'r awdurdod trwyddedu'n bwriadu cyhoeddi datganiad o egwyddorion ar wahân ar gyfer ystyried addasrwydd ymgeisydd yn achos ceisiadau am hawlenni ar gyfer Canolfannau Adloniant Teuluol dan baragraff 7 yn Atodlen 10 y Ddeddf ac, er hwylustod, mae'n cynnwys hwn fel rhan o'r ddogfen bolisi hon.

5.1.2 Ni all cais am hawlen ond cael ei wneud gan berson sy'n meddiannu neu'n bwriadu meddiannu'r safle a fydd yn cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teuluol ddidrwydded ac, os yw'r ymgeisydd yn unigolyn, mae'n rhaid iddo ef neu iddi hi fod yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn. Ni ellir gwneud cais am hawlen os oes trwydded safle mewn grym ar gyfer yr un safle.

5.1.3 Pan nad yw safle'n dal trwydded safle ond ei fod yn dymuno darparu peiriannau hapchwarae, gall wneud cais i'r awdurdod trwyddedu am yr hawlen hon. Dylid nodi bod rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel un lle bydd peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio (Adran 238 Deddf Gamblo 2005).

5.1.4 Mae'r awdurdod trwyddedu'n mabwysiadu Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r hawlenni hyn, gan roi pwys arbennig ar faterion amddiffyn plant.

5.1.5 Nid yw cais am hawlen ond yn debygol o gael ei ganiatáu os yw'r awdurdod trwyddedu wedi'i argyhoeddi y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel CAT ddidrwydded a bod yr ymgeisydd yn gallu dangos:

- dealltwriaeth lawn am yr uchafswm posib sy'n ganiataol o ran arian a fentrir a gwobrau a roddir wrth gamblo mewn Canolfannau Adloniant Teuluol didrwydded;
- nad oes ganddo ef neu ganddi hi unrhyw euogfarnau perthnasol (y rheiny a nodir yn Atodlen 7 y Ddeddf); a
- bod staff wedi'u hyfforddi i fod â dealltwriaeth lawn am yr uchafswm posib o ran yr arian a fentrir a'r gwobrau a roddir;

5.1.6 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi ystyriaeth i aelodaeth o unrhyw gymdeithas fasnach sydd wedi cynnwys hyfforddiant a chanllawiau i weithredwyr.

5.1.7 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod polisïau a gweithdrefnau'n bodoli i amddiffyn plant rhag niwed. Nid yw niwed yn y cyd-destun hwn wedi'i gyfyngu i niwed sy'n deillio o gamblo ond mae'n cynnwys ystyriaethau ehangach mewn perthynas ag amddiffyn plant.

- Bydd effeithlonrwydd polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cael ei ystyried yn ôl eu rhinweddau, ond gallant gynnwys:

- hyfforddiant i staff mewn perthynas â phlant sydd dan amheuaeth o chwarae triwant ar y safle;

- mesurau ac/neu hyfforddiant sy'n cynnwys sut y byddai staff yn ymdrin â phresenoldeb plant ifanc iawn heb oruchwyliaeth ar y safle, neu blant yn achosi problemau canfyddedig ar / o amgylch y safle.

- Dylid nodi na all awdurdod trwyddedu ychwanegu amodau at y math hwn o hawlen.

5.2 <u>Hawlenni peiriannau hapchwarae i safleoedd â thrwydded (Gwerthu alcohol)</u>

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn mabwysiadu canllawiau statudol y Comisiwn Gamblo ynglŷn â hysbysiadau a thrwyddedau mewn safleoedd trwyddedig am alcohol. Ceir darpariaeth yn y Ddeddf ar gyfer safleoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, sy'n rhoi iddynt hawl awtomatig i fod â 2 beiriant hapchwarae, a'r rheiny'n perthyn i gategorïau C ac/neu D. Y cwbl y mae angen i'r safle ei wneud yw hysbysu'r awdurdod trwyddedu ynghylch ei fwriad i ddarparu peiriannau hapchwarae i bobl eu defnyddio. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried cyhoeddi Gorchymyn dan Adran 284 y Ddeddf os yw wedi'i argyhoeddi:

- nad yw darparu'r peiriannau'n rhesymol gyson â chyflawni'r amcanion trwyddedu;

- bod gweithgareddau hapchwarae wedi digwydd ar y safle sy'n torri amod yn Adran 282 y Ddeddf Gamblo.

- bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer hapchwarae; neu

- fod trosedd dan y Ddeddf Gamblo wedi cael ei gyflawni ar y safle.

5.2.2 Os yw safle'n dymuno darparu mwy na dau beiriant, yna mae angen iddo wneud cais am hawlen a bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y cais hwnnw'n seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, a materion sy'n berthnasol yn ei dyb ef. Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried y bydd "materion o'r fath" yn cael eu penderfynu fesul achos ond y rhoddir ystyriaeth ar y cyfan i'r canlynol:

- yr angen i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio o ganlyniad i gamblo

- pa un a all yr ymgeisydd argyhoeddi'r awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau nad yw rhai dan 18 mlwydd oed yn cael mynediad at y peiriannau hapchwarae a ddarperir ar gyfer oedolion yn unig.

Gallai'r mesurau a fydd yn argyhoeddi'r awdurdod na fydd mynediad gynnwys:

- gosod y peiriannau ar gyfer oedolion o fewn golwg y bar, neu yng ngŵydd staff a fydd yn monitro er mwyn gofalu nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio gan rai dan 18

- Hysbysiadau ac arwyddion priodol

5.2.3 O ran amddiffyn pobl agored i niwed efallai y bydd ymgeiswyr yn dymuno ystyried darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth gan sefydliadau megis GamCare.

5.2.4 Cydnabyddir y gall rhai safleoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol wneud cais am drwydded safle ar gyfer eu hardaloedd sydd heb drwydded alcohol. Mae'n debygol iawn y bydd angen gwneud cais o'r fath, ac ymdrin â chais o'r fath fel cais am drwydded safle Canolfan Hapchwarae i Oedolion.

5.2.5 Dylid nodi y gall yr awdurdod trwyddedu benderfynu caniatáu'r cais gyda nifer llai o beiriannau ac/neu wahanol gategori o beiriannau nag a nodwyd yn y cais.

5.2.6 Dylid nodi hefyd bod rhaid i ddeiliad hawlen gydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant.

5.3 <u>Hawlenni Hapchwarae am Wobrau</u>

5.3.1 Nid yw'r awdurdod trwyddedu'n bwriadu cyhoeddi datganiad o egwyddorion ar wahân ar gyfer ystyried addasrwydd ymgeisydd mewn perthynas â cheisiadau am hawlenni hapchwarae am wobrau dan baragraff 8 yn Atodlen 14 y Ddeddf ac, er hwylustod, mae'n cynnwys hwn fel rhan o'r ddogfen bolisi hon.

5.3.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl y dylai'r ymgeisydd, wrth wneud cais am hawlen hapchwarae am wobrau, nodi'r mathau o hapchwarae y mae'n bwriadu eu cynnig a gallu dangos:

- ei fod yn deall y terfynau o ran yr arian y gellir ei fentro a'r gwobrau y gellir eu rhoi fel a nodir yn y Rheoliadau;

- bod y gweithgareddau hapchwarae a gynigir yn gyfreithlon.

- bod polisïau eglur ar gael sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd er mwyn amddiffyn plant rhag niwed

5.3.3 Wrth wneud ei benderfyniad ynghylch cais am yr hawlen hon gall yr awdurdod trwyddedu roi ystyriaeth i'r amcanion trwyddedu, canllawiau'r Comisiwn Gamblo a sylwadau perthnasol gan Heddlu De Cymru. Bydd hyn yn cynnwys sylwadau ar addasrwydd ymgeisydd o ran euogfarnau perthnasol, lleoliad y safle mewn perthynas ag anhrefn a materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

5.3.4 Dylid nodi bod amodau yn Neddf Gamblo 2005 y mae'n rhaid i ddeiliad yr hawlen gydymffurfio â hwy, ond na all yr awdurdod trwyddedu ychwanegu amodau atynt. Mae'r amodau yn y Ddeddf fel a ganlyn:

- mae'n rhaid cydymffurfio â'r terfynau o ran ffioedd cyfranogi, fel a nodir mewn rheoliadau;

- mae'n rhaid i'r holl gyfleoedd i gymryd rhan yn y gweithgaredd hapchwarae gael eu dyrannu ar y safle ar y diwrnod y mae'r gweithgaredd yn digwydd ac ar un diwrnod; mae'n rhaid i'r gêm gael ei chwarae a'i chwblhau ar y diwrnod y dyrennir y cyfleoedd; ac mae'n rhaid cyhoeddi canlyniad y gêm ar y safle ar y diwrnod y caiff ei chwarae;

- ni ddylai'r wobr y chwaraeir amdani fod yn uwch na'r swm a nodir mewn rheoliadau (os mai gwobr ariannol ydyw), neu'r gwerth a ragnodir (os mai gwobr anariannol ydyw); ac

- ni ddylai cymryd rhan yn y gweithgaredd hapchwarae roi'r hawl i'r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd gamblo arall.

5.4 <u>Hawlenni ar gyfer Hapchwarae mewn Clybiau a Pheiriannau mewn Clybiau</u>

5.4.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried ac yn dilyn Canllawiau'r Comisiwn mewn perthynas â chaniatáu Hawlenni ar gyfer Hapchwarae mewn Clybiau a Pheiriannau mewn Clybiau

5.4.2 Mae 'trywydd cyflym' ar gael hefyd dan y Ddeddf ar gyfer safleoedd sy'n dal Tystysgrif Safle Clwb dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodlen 12, paragraff 10). Bydd yr awdurdod trwyddedu'n dilyn Canllawiau'r Comisiwn Gamblo, sef bod y rhesymau y gellir gwrthod cais dan y broses fel a ganlyn:

- bod y clwb wedi'i sefydlu'n bennaf ar gyfer hapchwarae, heblaw am hapchwarae a ragnodir dan atodlen 12;

- bod yr ymgeisydd, yn ychwanegol at yr hapchwarae a ragnodir, yn darparu cyfleusterau ar gyfer hapchwarae arall; neu

- bod hawlen hapchwarae ar gyfer clwb neu hawlen peiriannau ar gyfer clwb a roddwyd i'r ymgeisydd yn y deng mlynedd ddiwethaf wedi cael ei dirymu.

5.5 <u>Hysbysiadau Defnydd Dros Dro</u>

5.5.1 Mae Rhan 9 o'r Ddeddf yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â hysbysiadau defnydd dros dro. Mae'r rhain yn caniatáu defnyddio safleoedd ar gyfer gamblo lle nad oes trwydded safle ond lle mae gweithredwr gamblo'n dymuno defnyddio'r safle dros dro i ddarparu cyfleusterau ar gyfer gamblo.

5.5.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried y Canllawiau mewn perthynas â'r enghreifftiau o safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer hysbysiad defnydd dros dro ac sy'n cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.

5.5.3 Bydd ystyr 'safle' yn Rhan 8 o'r Ddeddf yn gwestiwn ffeithiol dan amgylchiadau arbennig pob hysbysiad a roddir. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n archwilio, ymysg pethau eraill, perchenogaeth/meddiannaeth a rheolaeth ar y safle a bydd yn dilyn y meini prawf a nodir yn y Canllawiau wrth asesu ceisiadau pan ymddengys mai effaith hysbysiadau fyddai eu bod yn arwain at ganiatáu gamblo rheolaidd mewn lle y gellid ei ddisgrifio fel un safle.

5.5.4 Wrth ystyried a ddylid rhoi hysbysiad o wrthwynebiad, bydd yr awdurdod trwyddedu'n ystyried yr amcanion trwyddedu ac os bydd yn ystyried na ddylai'r gamblo ddigwydd, neu na ddylai ond digwydd gydag addasiadau, bydd yn rhoi hysbysiad o wrthwynebiad i'r sawl a roddodd yr hysbysiad defnydd dros dro.

5.5.5 Bydd yr egwyddorion y bydd yr awdurdod yn eu defnyddio wrth ddyroddi gwrth-hysbysiad yr un fath â'r rheiny a ddefnyddir wrth benderfynu ar geisiadau am drwyddedau safle. Yn arbennig, mae'r awdurdod trwyddedu'n ymwybodol o'r Canllawiau y dylai amcanu at ganiatáu darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo dan hysbysiad defnydd dros dro yn amodol ar ei safbwynt ynghylch y cwestiwn a yw gwneud hynny'n cyd-fynd â chod y Comisiwn, y Canllawiau, neu'i Ddatganiad o Bolisi ac yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu.

5.5.6 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi ystyriaeth arbennig i'r cwestiwn ai effaith yr Hysbysiadau Defnydd Dros Dro yw eu bod yn caniatáu gamblo rheolaidd mewn lle y gellid ei ddisgrifio fel un safle. Bydd ffactorau megis perchenogaeth, meddiannaeth a rheolaeth ar y safle'n cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid gwrthwynebu Hysbysiad Defnydd Dros Dro.

5.6 <u>Hysbysiadau Defnydd Achlysurol</u>

5.6.1 Mae Adran 39 y Ddeddf yn nodi, pan fo betio'n digwydd wrth drac ar wyth diwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr, y gellir caniatáu betio trwy hysbysiad defnydd achlysurol heb fod angen trwydded safle lawn. Mae'r awdurdod trwyddedu'n ystyriol o'r ffaith bod ystyr 'trac' yn y Ddeddf yn berthnasol nid dim ond i gaeau rasio ceffylau neu draciau cŵn, ond hefyd i unrhyw safle arall y mae ras neu ddigwyddiad chwaraeon arall yn digwydd, neu y bwriedir iddo ddigwydd, ar unrhyw ran ohono (adran 353(1)). Golyga hyn y gall tir sydd â nifer o ddefnyddiau, y mae un ohonynt yn cyd-fynd â'r diffiniad o drac, fod yn gymwys ar gyfer y darpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiad defnydd achlysurol (er enghraifft tir amaethyddol lle mae cyfarfod pwynt-i-bwynt yn digwydd). Gall tir a ddefnyddir dros dro fel trac fod yn gymwys, ar yr amod bod rasys neu ddigwyddiadau chwaraeon yn digwydd neu'n mynd i fod yn digwydd yno. Nid oes angen i'r trac fod yn nodwedd barhaol.

5.6.2 Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan yr awdurdod trwyddedu mewn perthynas â'r hysbysiadau hyn heblaw am sicrhau nad eir y tu hwnt i'r terfyn statudol o 8 diwrnod mewn blwyddyn galendr. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried y diffiniad o 'drac' a pha un a ganiateir i'r ymgeisydd fanteisio ar yr hysbysiad.

5.7 Loterïau Cymdeithasau Bychain

5.7.1 Dylai ymgeiswyr am gofrestriad gofio ei bod yn ymlynol yn y diffiniadau bod yn rhaid i gymdeithas fod wedi'i sefydlu at un o'r dibenion a ganiateir, a bod yn rhaid i'r elw o unrhyw loteri gael ei neilltuo i'r dibenion hynny. Ni chaniateir sefydlu cymdeithas y mae'i hunig ddiben yn ymwneud â hwyluso loterïau – mae'n rhaid bod rhyw ddiben arall iddi. Bydd yr awdurdod yn cymhwyso'r profion canlynol:

- statws y gymdeithas – mae'n rhaid bod y gymdeithas dan sylw'n 'anfasnachol'

- maint y loteri – mae'n rhaid i gyfanswm gwerth y tocynnau a fydd yn cael eu rhoi ar werth ar gyfer pob loteri unigol fod yn £20,000 neu lai, neu mae'n rhaid i werth cyfanredol y tocynnau a roddir ar werth ar gyfer holl loterïau'r gymdeithas yn unrhyw flwyddyn galendr beidio â bod yn uwch na £250,000. Os yw'r gweithredwr yn bwriadu mynd y tu hwnt i'r naill neu'r llall o'r gwerthoedd hyn yna gall y bydd angen i'r gweithredwr fod wedi cael trwydded gan y Comisiwn i weithredu loterïau mawr yn lle hynny.

5.7.2 Mae'r awdurdod yn argymell bod ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr yn ymofyn copi o ddogfennau cynghori'r Comisiwn mewn perthynas â loterïau, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn.

5.7.3 Mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru loterïau cymdeithasu bychain fod ar y ffurf a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a chael eu hanfon ynghyd â'r ffi cofrestru sy'n ofynnol a'r holl ddogfennau angenrheidiol sy'n ofynnol gan yr awdurdod trwyddedu er mwyn iddo allu asesu'r cais yn briodol.

5.7.4 Gall yr awdurdod ofyn i ymgeiswyr newydd am gopi o'u hamodau a thelerau neu'u cyfansoddiad er mwyn cadarnhau mai cymdeithas anfasnachol ydyw. Gall hefyd ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu datganiad, sy'n dweud eu bod yn cynrychioli cymdeithas anfasnachol bona fide.

5.7.5 Bydd yr awdurdod yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am gofrestru cymdeithasau bychain i swyddogion trwyddedu, yn amodol ar ei broses ddirprwyo benodol.

5.7.6 Mae'r awdurdod yn cynnig nodi'r rhesymau canlynol mewn perthynas â thrwyddedu dros wrthod cais i gofrestru loteri cymdeithas fechan:

- Mae trwydded weithredu a oedd yn cael ei dal gan yr ymgeisydd am gofrestriad wedi cael ei dirymu neu

- mae cais am drwydded gweithredu a wnaed gan yr ymgeisydd am gofrestriad wedi cael ei wrthod, o fewn y pum mlynedd ddiwethaf, neu

- Ni ellir ystyried bod y gymdeithas dan sylw'n anfasnachol. Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ond gellir ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddarparu datganiad gyda'i ffurflen gais i ddweud ei f/bod yn cynrychioli cymdeithas anfasnachol bona fide, a nodi sut y gellid cadarnhau diben y gymdeithas. Dan rai amgylchiadau bydd gwybodaeth ategol bellach yn cael ei cheisio.

- Mae person a fydd neu allai fod yn gysylltiedig â hyrwyddo'r loteri wedi ei gael yn euog o drosedd perthnasol. Gall yr awdurdod trwyddedu ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd ddarparu datganiad ychwanegol i ddatgan nad oes ganddo unrhyw euogfarnau perthnasol a fyddai'n ei atal rhag rhedeg loteïau.

- Cafwyd fod gwybodaeth a ddarparwyd yn neu gyda'r cais am gofrestriad yn ffug neu'n gamarweiniol.

5.7.7 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu ond yn gwrthod cais am gofrestriad wedi i'r gymdeithas gael y cyfle i wneud sylwadau. Bydd y rhain yn cael eu hystyried fel arfer mewn gwrandawiad ffurfiol. Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi gwybod i'r gymdeithas am y rhesymau pam ei fod o blaid gwrthod cofrestriad ac yn rhoi iddi amlinelliad o leiaf o'r dystiolaeth y mae'r casgliad rhagarweiniol hwnnw'n seiliedig arni er mwyn ei galluogi i wneud sylwadau. Ymdrinnir â sylwadau a gwrthwynebiadau a allai ddeillio ar ôl penderfyniad o'r fath yn yr un ffordd ag y byddai'r awdurdod yn ymdrin â sylwadau mewn perthynas â materion trwyddedu eraill. Bydd copi o'r gweithdrefnau hyn yn cael ei ddarparu gyda'r ohebiaeth gychwynnol.

5.7.8 Gall yr awdurdod trwyddedu benderfynu dirymu cofrestriad cymdeithas os yw'n meddwl y byddai wedi gorfod gwrthod, neu y byddai ganddo hawl i wrthod, cais am gofrestriad pe bai'n cael ei wneud bryd hynny.

5.7.9 Ni fydd dirymiadau'n digwydd oni bai fod y gymdeithas wedi cael cyfle i wneud sylwadau mewn gwrandawiad neu drwy ohebiaeth. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn, bydd yr awdurdod yn hysbysu'r gymdeithas ynghylch y rhesymau y mae o blaid dirymu'r cofrestriad ac yn rhoi iddi fanylion y dystiolaeth y mae'r casgliad cychwynnol hwnnw'n seiliedig arni.

6.0 GWNEUD PENDERFYNIADAU A DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

6.1 Gan ddeall yr angen i ddarparu gwasanaeth cyflym, effeithlon a chost-effeithiol ar gyfer yr holl bartïon sy'n rhan o'r broses drwyddedu, gall y Pwyllgor Trwyddedu ddirprwyo rhai penderfyniadau a swyddogaethau ac mae wedi sefydlu Is-Bwyllgorau i ymdrin â hwy. Bydd swyddogaethau sy'n gwbl weinyddol o ran natur a cheisiadau annadleuol yn cael eu dirprwyo i Swyddogion y Cyngor.

6.2 Bydd Is-Bwyllgor Trwyddedu â thri Chynghorydd arno'n eistedd i wrando ceisiadau lle cafwyd sylwadau gan bartïon cyfrannog ac awdurdodau cyfrifol. Ni

fydd Cynghorwyr Wardiau'n eistedd ar banel sy'n ymdrin â chais o fewn eu gward hwy.

6.3 Pan fo Cynghorydd sy'n aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu'n gwneud neu wedi gwneud sylwadau mewn perthynas â thrwydded ar ran parti cyfrannog, er mwyn llywodraethu da bydd yn ei ddiarddel ei hun rhag chwarae unrhyw ran yn y broses benderfynu.

6.4 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu hefyd yn eistedd i benderfynu ar faterion trwyddedu cyffredinol a ddirprwywyd iddo gan y Cyngor llawn nad ydynt yn gysylltiedig â Deddf Gamblo 2005.

6.5 Bydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu hefyd yn atgyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu unrhyw fater y mae'n methu ag ymdrin ag ef oherwydd nifer yr aelodau sy'n methu â chymryd rhan pan fo'n ystyried neu'n trafod unrhyw fater neu'n methu â phleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas ag ef.

6.6 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu'n atgyfeirio at y Cyngor llawn unrhyw fater y mae'n methu ag ymdrin ag ef oherwydd nifer yr aelodau sy'n methu â chymryd rhan pan fo'n ystyried neu'n trafod unrhyw fater neu'n methu â phleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas ag ef.

6.7 Bydd pob penderfyniad ynghylch trwyddedu gan y Pwyllgor neu'r Is-Bwyllgor Trwyddedu'n cael ei wneud gan nodi rhesymau eglur, cymhellol dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw'n cael eu hanfon at yr ymgeisydd a'r rheiny sydd wedi gwneud sylwadau perthnasol a hynny cyn gynted ag sy'n ymarferol.

6.8 Ni fydd unrhyw beth yn y Datganiad hwn yn gwrthwneud hawl ymgeisydd, awdurdod cyfrifol neu barti cyfrannog i apelio yn erbyn penderfyniad Is-Bwyllgor Trwyddedu.

6.9 Swyddogion y Cyngor fydd yn penderfynu a yw sylwadau'n amherthnasol, yn wamal neu'n flinderus, a hwy fydd yn gwneud y penderfyniadau ynghylch atgyfeirio sylwadau neu geisiadau am adolygiadau o drwyddedau at yr Is-Bwyllgor Trwyddedu neu beidio. Pan fo sylwadau'n cael eu gwrthod, bydd y person sy'n gwneud y sylwadau hynny'n cael gwybod yn ysgrifenedig beth yw'r rhesymau dros hynny.

6.10 Nid yw'r drefn ddirprwyo hon yn atal Swyddogion rhag cyfeirio cais at Is-Bwyllgor, nac Is-Bwyllgor rhag cyflwyno cais at y Pwyllgor, na'r Pwyllgor rhag cyflwyno cais at y Cyngor, os ystyrir bod hynny'n briodol dan amgylchiadau unrhyw achos penodol.

Mater	Y Cyngor	Yr Is-Bwyllgor	SWYDDOGION
Polisi tair blynedd ar drwyddedu	X		

Polisi i beidio â chaniatáu casinos	X		
Pennu Ffioedd – pan fo'n briodol			X
Ceisiadau am drwyddedau safle		Lle derbyniwyd sylwadau a'r rheiny heb gael eu tynnu'n ôl	Lle na dderbyniwyd sylwadau / lle tynnwyd sylwadau'n ôl
Cais am amrywiad i drwydded		Lle derbyniwyd sylwadau a'r rheiny heb gael eu tynnu'n ôl	Lle na dderbyniwyd sylwadau / lle tynnwyd sylwadau'n ôl
Cais am drosglwyddo trwydded		Lle derbyniwyd sylwadau oddi wrth y Comisiwn	Lle na dderbyniwyd sylwadau oddi wrth y Comisiwn
Cais am ddatganiad dros dro		Lle derbyniwyd sylwadau a'r rheiny heb gael eu tynnu'n ôl	Lle na dderbyniwyd sylwadau / lle tynnwyd sylwadau'n ôl
Adolygiad o drwydded safle		X	
Cais am hawlenni ar gyfer hapchwarae mewn clwb/peiriannau mewn clwb		Lle derbyniwyd sylwadau a'r rheiny heb gael eu tynnu'n ôl	Lle na dderbyniwyd sylwadau / lle tynnwyd sylwadau'n ôl
Canslo hawlenni ar gyfer hapchwarae mewn clwb/peiriannau mewn clwb		X	
Ceisiadau am hawlenni eraill			X
Canslo hawlenni ar gyfer peiriannau hapchwarae mewn safleoedd trwyddedig			X
Ystyried hysbysiad defnydd dros dro			X
Penderfyniad i roi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro		X	
Penderfynu a yw rhywun yn Barti Cyfrannog			X
Penderfynu a yw sylwadau'n berthnasol			X
Penderfynu a yw sylwadau'n wamal, yn flinderus neu'n ailadroddol			X

Mae'r trefniadau dirprwyo uchod yn ymwneud â'r egwyddorion dirprwyo trosfwaol mewn perthynas â materion polisi a cheisiadau am drwyddedau safle. Gall y bydd

trefniadau dirprwyo eraill yn cael eu hychwanegu o bryd i'w gilydd a byddant ar gael yn www.bridgend.gov.uk yn unol â chyfansoddiad y Cyngor a Chynllun y Cyngor ar gyfer Dirprwyo i Swyddogion a Chanllawiau'r Comisiwn.

7.0 HAWL I APELIO A CHAEL ADOLYGIAD BARNWROL

7.1 Caiff y ffyrdd o apelio yn erbyn penderfyniadau gan awdurdod trwyddedu eu nodi yn adrannau 206 i 209 yn Neddf Gamblo 2005.

7.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu'n rhoi rhesymau eglur a chynhwysfawr dros wrthod cais. Bydd y rhesymau'n nodi i ba raddau y cafodd y penderfyniad ei wneud gan ystyried Datganiad o Bolisi'r Awdurdod Trwyddedu a Chanllawiau'r Comisiwn.

7.3 Mae'n rhaid i apêl gael ei chychwyn â gweithred lle mae'r apelydd yn cyflwyno hysbysiad am apêl i Lys Ynadon Pen-y-bont o fewn cyfnod o 21 diwrnod, sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff yr apelydd ei hysbysu gan yr awdurdod trwyddedu ynghylch y penderfyniad y mae'n apelio yn ei erbyn.

7.4 Gall unrhyw barti mewn penderfyniad wneud cais am adolygiad barnwrol os yw'n credu bod y penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod trwyddedu:

- yn anghyfreithlon – hynny yw, y tu hwnt i'r pwerau sydd ar gael i'r awdurdod trwyddedu

- yn deillio o amhriodoldeb neu annhegwch trefniadol – sef methiant yn y broses o ddod i benderfyniad, megis peidio â dilyn 'rheolau cyfiawnder naturiol'

- yn afresymol – pan fo penderfyniad mor afresymol fel na allai'r un person synhwyrol fod wedi'i wneud (pan fo, i bob pwrpas, yn 'wrthnysig' neu'n gyfystyr ag afresymoldeb 'Wednesbury').

Roedd y ffynonellau a ddefnyddiwyd i baratoi'r Datganiad o Egwyddorion yn cynnwys:

Canllaw'r Comisiwn Gamblo sydd ar gael yn www.gamblingcommission.gov.uk

Data'r Cyfrifiad o www.bridgend.gov.uk